Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Adroddiad i Gyd-bwyllgor GwE

# Deilliannau Disgyblion 2015

Tachwedd 2015

## Arfarniad o Berfformiad 2014-15

Codi safonau a gwella ansawdd addysg ein disgyblion yw'r flaenoriaeth bwysicaf i GwE a'i bartneriaid, er mwyn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc.

Barn GwE yw bod safonau ar draws y CS, CA2, CA3 a CA5 yn gyffredinol gadarn a bod y tueddiadau diweddar yn awgrymu bod pethau wedi cyrraedd gwastatir yn y CS a CA2, gyda gwelliannau pellach yn CA3. Fodd bynnag, perfformiad digonol yn unig a welwyd yn CA4 yn 2015.

Mae mwy o gynnydd ar lefel genedlaethol wedi'i wneud rhwng 2013>2015 ar draws y prif ddangosyddion ym mhob cyfnod allweddol [ac eithrio CA3] ac mae amrywiadau o hyd mewn perfformiad rhwng ysgolion yn y ddau sector, ar draws y rhanbarth. Mae gormod o ysgolion unigol gyda pherfformiad treigl yn y prif ddangosyddion sy'n is na'r canolrif o ran meincnodau PYD cenedlaethol. Mae strategaethau penodol wedi eu gweithredu gyda sefydliadau sydd â hanes o danberfformio [gan gynnwys mabwysiadu cynlluniau gwella ansawdd a chytuno ar amserlen dynn a rheolaidd o fonitro a herio] sydd wedi arwain at welliannau da i ganran sylweddol ohonynt. Gyda lleiafrif o'r ysgolion hynny'n gwneud cynnydd anfoddhaol mae'r Awdurdodau, mewn cydweithrediad llawn â GwE, wedi gweithredu'n unol â'r pwerau a'r cyfrifoldebau a ddiffinnir yn y Cytundeb Partneriaeth rhwng Ysgolion a'r Awdurdod Lleol [Adran 197 Deddf Addysg 2007].

**Yr her fwyaf o hyd yw gwella perfformiad mewn nifer o ysgolion uwchradd targed, ac atgyfnerthu'r gwelliant diweddar a fu mewn nifer o ysgolion eraill yn ogystal â sicrhau bod safonau ac arweinyddiaeth yn gwella ar draws yr ysgolion cynradd sy'n tanberfformio.** Mae'r gweithredu dwys a phwrpasol yn yr ysgolion hyn ers 2013 yn adlewyrchu ymrwymiad yr awdurdodau ac Uwch Dîm Rheoli GwE i sicrhau gwelliannau ar gyfer pob dysgwr, ble bynnag y lleolir hwynt yn y rhanbarth.

**Perfformiad yn y prif ddangosydd ar ddiwedd pob cyfnod allweddol:**

| Dangosydd | 2014 | | +/- | 2015 | | +/- | Cynnydd 2013>2015 | | Cynnydd 2014>2015 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | GwE | Cymru | | GwE | Cymru | | GwE | Cymru | GwE | Cymru |
| **DCS** | 84.5 | 85.2 | -0.7 | 85.9 | 86.8 | -0.9 | 2.4 | 3.8 | 1.4 | 1.6 |
| **DPC CA2** | 85.7 | 86.1 | -0.4 | 88.2 | 87.7 | 0.5 | 0.1 | 1.8 | 2.5 | 1.6 |
| **DPC CA3** | 83.8 | 81 | 2.8 | 86.1 | 83.9 | 2.2 | 5.1 | 4 | 2.3 | 2.9 |
| **TL2+** | 57.1 | 55.4 | 1.7 | 57.1 | 58 | 0.7 | 1 | 2.4 | 0 | 2.6 |

Ar sail yr ystadegau uchod, a'r gymhariaeth a'r sefyllfa genedlaethol, mae perfformiad rhanbarth GwE yn y prif ddangosydd yn dda yn CA2 a CA3, ond yn ddigonol yn unig yn y CS a CA4. Erbyn 2015, mae'r prif ddangosydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn CA2 a CA3 ac mae'r cynnydd 2014>2015 yn dda. Mae'r prif ddangosydd CS yn parhau yn is na chyfartaledd Cymru ac yn CA4 mae'r perfformiad yn is na Chymru am y tro cyntaf mewn tair blynedd. Yn ogystal mae'r cynnydd ar lefel cenedlaethol yn rhagori ar gyfraddau gwella lleol.

Fodd bynnag, amlygodd gyfeiriad cenedlaethol yr angen am gyfnod lle nad oes fawr ddim newid mewn Asesiadau Athrawon ar draws Cymru a phroses cymedroli a dilysu mwy grymus. Erys manwl gywirdeb asesiad athro yn bryder cenedlaethol ac mae hyn yn faes sy'n parhau i fod angen sylw ar draws y rhanbarth.

CYFNOD SYLFAEN

[ASESIADAU ATHRAWON]

**Barn Gryno CS**:

**Mae'r ystadegau yn awgrymu perfformiad digonol yn unig yn y Cyfnod Sylfaen gan fod y ganran llwyddiant yn parhau yn is na'r ganran genedlaethol. Mae'r cyfraddau gwella lleol hefyd yn is na'r cynnydd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae pryder yn genedlaethol am gywirdeb asesiadau athrawon ac mae angen gwneud gwaith pellach i gryfhau trefniadau asesu, safoni a chymedroli yn lleol ac yn genedlaethol.**

**DANGOSYDD CYFNOD SYLFAEN (DCS)**

| DCS | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| GwE | 83.5% | 84.5% | 85.9% | 2.4% | 1.4% |
| CSC | 81.9% | 84.1% | 87.6% | 5.7% | 3.5% |
| EAS | 86.2% | 88.2% | 88.0% | 1.8% | -0.2% |
| ERW | 82.4% | 85.7% | 87.1% | 4.7% | 1.4% |
| Cymru | 83.0% | 85.2% | 86.8% | 3.8% | 1.6% |

| DCS | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 82.8% | 85.2% | 86.8% | 4.0% | 1.5% |
| Môn | 85.8% | 84.6% | 86.2% | 0.4% | 1.6% |
| Conwy | 80.4% | 84.5% | 82.9% | 2.5% | -1.6% |
| Dinbych | 84.9% | 86.1% | 86.4% | 1.5% | 0.3% |
| Fflint | 84.4% | 84.5% | 87.0% | 2.6% | 2.5% |
| Wrecsam | 83.4% | 82.9% | 85.5% | 2.1% | 2.6% |
| GwE | 83.5% | 84.5% | 85.9% | 2.4% | 1.4% |
| Cymru | 83.0% | 85.2% | 86.8% | 3.8% | 1.6% |

**DCS : DISGYBLION PYD**

| DCS - PYD | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 70.2% | 71.0% | 75.4% | 5.2% | 4.4% |
| **Môn** | 71.3% | 67.4% | 77.1% | 5.8% | 9.7% |
| **Conwy** | 67.3% | 71.7% | 69.0% | 1.7% | -2.7% |
| **Dinbych** | 74.7% | 75.9% | 73.4% | -1.3% | -2.5% |
| **Fflint** | 67.8% | 69.3% | 71.2% | 3.4% | 1.9% |
| **Wrecsam** | 67.4% | 68.9% | 69.2% | 1.8% | 0.2% |
| **GwE** | 69.5% | 70.8% | 72.0% | 2.5% | 1.2% |
| **Cymru** | 69.2% | 72.4% | x | x | x |

**Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)**

- Gwelwyd cynnydd pellach yn y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r DCS yn 2015 (85.9% - sef cynnydd o 2.4% ers 2013) ond mae'r ganran yn parhau i fod yr isaf ymhlith y consortia rhanbarthol (amrediad 85.9% i 88.0%). Gwelwyd cynnydd ar draws pob Awdurdod Lleol (+0.4% i +4.0%) yn ystod y cyfnod 2013>2014 ond, ymhob achos, ac eithrio Gwynedd, mae'r cynnydd hwn yn is na chyfartaledd Cymru.
- Rhwng 2013>2015, roedd cynnydd sylweddol yn y ganran o ddisgyblion PYD sy'n cyflawni'r dangosydd yng Ngwynedd (+5.2%) a Môn (+5.8%) ond anghyson yw'r cynnydd ar draws y rhanbarth, gyda 4 ALl yn dangos cynnydd a 2 yn dangos gostyngiad rhwng 2014>2015.
- Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n cyrraedd y Lefel disgwyliedig (Deilliant 5+) mewn Cymraeg, Saesneg a Datblygiad Mathemategol yn parhau i wella ac mae cynnydd positif ym mhob un o'r dangosyddion rhwng 2014 a 2015. Mae'r cynnydd hwn yn debyg i'r hyn a welir ar draws y consortia rhanbarthol.
- Lefelau uwch (Deilliant 6+) – gwelwyd cynnydd pellach ar draws y dangosyddion yn rhanbarthol o'i gymharu â 2014, er bod y cynnydd mewn Cymraeg a Saesneg ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ganran Deilliant 5+ mewn Saesneg yng Ngwynedd (+13.5%) ond gostyngiad yn y ganran Deilliant 6+ (-8.7%).
- Mae perfformiad y genethod yn rhagori ar y bechgyn ar draws yr holl ddangosyddion er bod y bwlch yn llai mewn Datblygiad Mathemategol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'r bwlch ar gyfer y DCS (8.3% yn 2015) yn adlewyrchu'r sefyllfa yn genedlaethol (8.5% yn y cyfnod 2013-2015). Mae'r bwlch cynnar yma yn parhau yn destun pryder.
- O safbwynt y prif ddangosyddion a'r meincnodau PYD, mae sawl ysgol yn gyson yn chwarteli 3 a 4. Mae angen eu herio, eu cefnogi a'u monitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau gwelliannau.

## CYFNOD ALLWEDDOL 2

## [ASESIADAU ATHRAWON]

**Barn Gryno CA2:**

**Mae'r cynnydd yn y ganran rhanbarthol ar gyfer y DPC, sy'n bron i 2% yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2015, yn cynrychioli perfformiad da yn CA2. Mae'r cynnydd yn gyson ar draws awdurdodau'r rhanbarth ac mae'r ystadegau ar gyfer y disgyblion PYD hefyd yn dda mewn cymhariaeth a'r rhanbarthau eraill a chyfartaledd Cymru. Yr un yw'r negesuon bositif sy'n deillio o'r canrannau llwyddiant yn y pynciau craidd yn CA2. Fodd bynnag, fel gyda'r Cyfnod Sylfaen mae pryder yn genedlaethol am gywirdeb asesiadau athrawon ac mae angen gwneud gwaith pellach i gryfhau trefniadau asesu, safoni a chymedroli yn lleol ac yn genedlaethol.**

**CA2: DANGOSYDD PYNCIAU CRAIDD (DPC)**

| DPC | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| **GwE** | 85.5% | 85.7% | 88.2% | 2.7% | 2.5% |
| **CSC** | 83.3% | 85.8% | 87.8% | 4.5% | 2.0% |
| **EAS** | 85.7% | 87.0% | 88.1% | 2.4% | 1.1% |
| **ERW** | 84.5% | 87.3% | 88.3% | 3.8% | 1.0% |
| **Cymru** | 84.3% | 86.1% | 87.7% | 3.4% | 1.6% |

| DPC | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 86.6% | 86.0% | 89.5% | 2.9% | 3.5% |
| **Môn** | 88.0% | 87.8% | 91.8% | 3.8% | 4.0% |
| **Conwy** | 83.1% | 84.3% | 85.8% | 2.7% | 1.6% |
| **Dinbych** | 86.0% | 86.6% | 87.9% | 1.9% | 1.3% |
| **Fflint** | 85.0% | 86.1% | 87.9% | 2.9% | 1.8% |
| **Wrecsam** | 85.4% | 84.2% | 87.7% | 2.3% | 3.5% |
| **GwE** | 85.5% | 85.7% | 88.2% | 2.7% | 2.5% |
| **Cymru** | 84.3% | 86.1% | 87.7% | 3.4% | 1.6% |

**CA2: DPC : DISGYBLION PYD**

| DPC - PYD | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 70.4% | 76.6% | 75.7% | 5.3% | -0.9% |
| Môn | 78.5% | 79.3% | 78.7% | -0.6% | -0.7% |
| Conwy | 68.9% | 66.7% | 69.9% | 1.0% | 3.3% |
| Dinbych | 77.1% | 73.0% | 79.0% | 1.9% | 6.0% |
| Fflint | 71.5% | 71.6% | 72.0% | 0.5% | 0.4% |
| Wrecsam | 68.5% | 65.8% | 74.3% | 5.8% | 8.6% |
| GwE | 72.2% | 71.1% | 74.6% | 2.4% | 3.5% |
| Cymru | 69.8% | 71.9% | x | x | x |

**Dangosydd Pynciau Craidd**

- Gwelwyd cynnydd pellach yn y ganran sy'n cyflawni'r DPC o 2.5% rhwng 2014>2015 yn sicrhau bod y ganran llwyddiant rhanbarthol (GwE) o 88.2% yn uwch na chyfartaledd Cymru (87.7%) a'r ail orau ymysg rhanbarthau Cymru. Cynnydd o 2.7% yn ystod y cyfnod 2013>2015 (Cymru 3.4%)
- Cynnydd arwyddocaol ar draws pob un o Awdurdodau'r rhanbarth rhwng 2014 a 2015, yn amrywio o 1.3% (Dinbych) i 4.0% (Môn). Mae'r cynnydd hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru ymhob Awdurdod ac eithrio Dinbych.
- DPC ar gyfer disgyblion PYD wedi cynyddu i 74.6% yn 2015, sy'n cymharu'n ffafriol gyda chyfartaledd Cymru (71.9% yn 2014). Mae'r cynnydd sylweddol yn Awdurdodau Wrecsam (+8.6%) a Dinbych (+6.0%) yn dda.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad y genethod a'r bechgyn (5.6%) yn is na chyfartaledd Cymru (5.8%) a'r isaf ond un ymysg y rhanbarthau.

**Pynciau Craidd**

Yn gyffredinol, mae'r canrannau llwyddiant ar L4+ a L5+ wedi gwella ar gyfer pob pwnc craidd yn ystod y cyfnod 2013-2015 ac mae'r cynnydd hwn yn cymharu'n eithaf ffafriol gyda'r sefyllfa'n genedlaethol. Mae angen parhau gyda'r her briodol i'r ysgolion unigol sy'n gyson yn perfformio islaw'r canolrif o ran meincnodau PYD cenedlaethol.

- **Cymraeg** - mae'r ganran sy'n cyrraedd L4+ erbyn diwedd CA2 wedi cynyddu i 89.7% erbyn 2015 (Cymru- 90.5%), sef cynnydd o 6.8% ers 2013 (Cymru - 7.6%). Ymysg yr Awdurdodau eleni mae'r cynnydd fwyaf ym Môn (+6.2%) a Dinbych (+5.5%) a'r gostyngiad fwyaf yn Fflint (-3.6%). Ar lefel 5+ mae'r ganran llwyddiant o 38.4% yn cynrychioli cynnydd o 6.8% ers 2013 ac mae'r canrannau L5+ wedi bod yn uwch na chyfartaleddau Cymru am y tair blynedd diwethaf.
- **Saesneg** - mae'r ganran L4+ wedi cynyddu i 90.0% erbyn 2015 ac mae'r canlyniad yma yn uwch na chyfartaledd Cymru am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae'r cynnydd hwn yn eithaf cyson ar draws Awdurdodau'r rhanbarth, gyda phob Awdurdod yn dangos cynnydd yn ystod y cyfnod 2013-2015. Ar lefel 5+ mae'r ganran yn parhau i gynyddu ym mhob awdurdod ac mae'r cynnydd rhanbarthol yn 2014-2015 (+3.6%) yn well na chyfartaledd Cymru (+2.8%). Serch hynny, mae'r ganran L5+ (40.2%) yn is na chanran Cymru (40.8%). Mae cynnydd arwyddocaol yng nghanlyniadau Gwynedd a Môn eleni.
- **Mathemateg** - mae'r ganran L4+ wedi cynyddu i 90.8% yn 2015 (cynnydd o +2.4% ers 2014), sef yr uchaf ymysg rhanbarthau Cymru. Mae'r cynnydd hwn yn gyson ar draws Awdurdodau'r Gogledd, ac mae cynnydd

arwyddocaol hefyd yn y niferoedd sy'n cyrraedd lefel 5+ erbyn diwedd CA2 (+2.8% ers 2004 a +4.2% yn ystod y cyfnod 2013-2015). Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a bechgyn yn llai mewn mathemateg, sef 3.3% yn 2015 (3.7% - Cymru gyfan).

- **Gwyddoniaeth** - 92.1% o ddisgyblion CA2 yn cyrraedd L4+ yn 2015, sef yr uchaf ymysg rhanbarthau Cymru. Cynnydd cyson ar draws yr Awdurdodau, er bod mwy o amrywiaeth yn y niferoedd sy'n llwyddo i gyrraedd L5+. Mae'r ganran ar gyfer y rhanbarth (40.8%) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (41.1%). Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn ar L4+ a L5+ yn debyg iawn i Fathemateg ac yn is na chyfartaledd Cymru.

## CYFNOD ALLWEDDOL 3

## [ASESIADAU ATHRAWON]

**Barn Gryno CA3:**

**Mae'r ystadegau yn gadarn iawn ac yn awgrymu perfformiad da ar draws y rhanbarth. Mae'r DPC yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob awdurdod yn rhanbarth GwE am y drydedd flwyddyn yn olynol. Fodd bynnag, yn sgil y deilliannau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4, mae pryder am ddibynadwyedd yr asesiadau diwedd cyfnod allweddol.**

**DANGOSYDD PYNCIAU CRAIDD (DPC)**

| DPC | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| **GwE** | 78.60% | 83.80% | 86.10% | 7.50% | 2.30% |
| **CSC** | 76.10% | 80.30% | 83.60% | 7.50% | 3.30% |
| **EAS** | 75.70% | 79.00% | 82.20% | 6.50% | 3.20% |
| **ERW** | 78.10% | 81.70% | 84.30% | 6.20% | 2.60% |
| **Cymru** | 77.00% | 81.00% | 83.90% | 6.90% | 2.90% |

| DPC | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 85.4% | 89.1% | 91.3% | 5.9% | 2.2% |
| **Môn** | 81.5% | 83.6% | 84.5% | 3.0% | 0.9% |
| **Conwy** | 78.5% | 83.7% | 87.2% | 8.7% | 3.5% |
| **Dinbych** | 75.0% | 83.2% | 84.3% | 9.3% | 1.1% |
| **Fflint** | 80.0% | 84.3% | 87.1% | 7.1% | 2.8% |
| **Wrecsam** | 72.2% | 78.4% | 80.9% | 8.7% | 2.5% |
| **GwE** | 78.6% | 83.8% | 86.1% | 7.5% | 2.3% |
| **Cymru** | 77.0% | 81.0% | 83.9% | 6.9% | 2.9% |

**CA3: DPC : DISGYBLION PYD**

| DPC - PYD | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 65.4% | 74.6% | 78.3% | 12.9% | 3.6% |
| Môn | 61.2% | 70.2% | 71.3% | 10.1% | 1.1% |
| Conwy | 56.0% | 70.5% | 70.1% | 14.1% | -0.4% |
| Dinbych | 47.7% | 66.3% | 63.2% | 15.5% | -3.1% |
| Fflint | 58.2% | 65.1% | 71.6% | 13.4% | 6.5% |
| Wrecsam | 45.2% | 50.5% | 56.0% | 10.8% | 5.5% |
| GwE | 54.4% | 65.2% | 67.7% | 13.3% | 2.5% |
| Cymru | 53.8% | 61.3% | x | x | x |

**Dangosydd Pynciau Craidd**

- Gwelwyd canlyniadau da ar draws rhanbarth GwE yn 2015 ac, am y drydedd flwyddyn yn olynol, mae canran llwyddiant DPC (86.1%) yr uchaf ymysg rhanbarthau Cymru. Mae'r cynnydd yn ystod y cyfnod treigl 2013-2015 (+7.5%) hefyd yr uchaf yng Nghymru.
- Mae'r canrannau ar gyfer y DPC yn amrywio o fewn y rhanbarth o Wrecsam (80.9% yn 2015) i Wynedd (91.3%) ond, yn ddieithriad, mae'r cynnydd ar draws y rhanbarth, sy'n amrywio o +3.0% ym Môn i 9.3% yn Ninbych, yn gadarn iawn.
- Mae cynnydd da hefyd yn y ganran o ddisgyblion PYD sydd wedi cyflawni'r dangosydd yn ystod y cyfnod 2013-2015; yn amrywio o +10.1% ym Môn i 15.5% yn Ninbych. Mae'r canrannau llwyddiant erbyn 2015 yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob un o Awdurdodau'r rhanbarth.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn yn 8.2% erbyn 2015, ac er bod hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa yn genedlaethol, mae'r cynnydd yn y bwlch rhwng CA2 a CA3 yn parhau yn destun pryder.

**Pynciau Craidd**

Mae'r canrannau llwyddiant ar L5+ a L6+ wedi gwella ar gyfer pob pwnc craidd yn ystod y cyfnod 2013-2015 ac mae'r cynnydd hwn yn cymharu'n ffafriol gyda'r sefyllfa'n genedlaethol. Mae angen parhau gyda'r sialens briodol i'r ysgolion unigol sy'n gyson yn perfformio islaw'r canolrif o ran meincnodau PYD cenedlaethol.

- **Cymraeg** - Canran L5+ yn rhanbarth GwE yn 2015 (92.3%) ydi'r uchaf yng Nghymru ac mae'r cynnydd o 3.7% ers 2013 yr ail uchaf. Mae'r ganran llwyddiant ymysg Awdurdodau'r Gogledd yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob achos, ac eithrio Fflint (80.0% o'i gymharu â 90.9% yng Nghymru a 92.3% yn rhanbarth GwE). Serch hynny, mae'r cynnydd o +24.0% eleni yn Fflint yn galonogol er fod niferoedd yn isel ac mae cynnydd arwyddocaol ym mhob un o'r Awdurdodau yn ystod y cyfnod treigl 2013-2015 (ac eithrio Conwy). Ar L6+ mae'r ganran llwyddiant rhanbarth GwE (59.8%) yn rhagori ar gyfartaledd Cymru (56.1%) ac mae'r cynnydd o 12.2% ers 2013 hefyd uwchlaw Cymru. Yn 2015 mae'r bwlch rhwng y merched a'r bechgyn yn 4.9% o'i gymharu â 7.0% ar draws Cymru.
- **Saesneg** - Canran L5+ (89.5%) eto'r uchaf ymysg rhanbarthau Cymru a'r cynnydd yn ystod y cyfnod 2013-2015 yn eithaf cyson ar draws awdurdodau'r Gogledd. Erbyn 2015 mae'r ganran L5+ yn uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob Awdurdod ac eithrio Wrecsam. Serch hynny, mae'r cynnydd o +7.0% yn Wrecsam yn ystod y cyfnod 2013-2015 yn uwch na chyfartaledd Cymru (+5%). Ar L6+mae'r ganran yn rhanbarth GwE yn 54.5%, sef cynnydd o 11.1% ers 2013, o'i gymharu â 52.6% ar draws Cymru. Mae'r

cynnydd hwn yn gyson ar draws yr Awdurdodau gyda'r cynnydd fwyaf yng Nghonwy (+14.6%) a'r lleiaf yng Ngwynedd (+5%) yn ystod y cyfnod treigl 2013-2015. Yn 2015 mae'r bwlch rhwng y genethod a'r bechgyn yn 8.8%, sydd ychydig yn uwch na Chymru (8.2%) ac yn destun pryder.

- **Mathemateg** – Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf mae'r ganran sydd wedi cyflawni L5+ mewn Mathemateg yn rhanbarth GwE wedi bod yn uwch na phob rhanbarth arall yng Nghymru. Dyma'r darlun ar L6+ hefyd (GwE- 62.1% a Chymru - 59.5% erbyn 2015). Mae'r cynnydd ar L5+ a L6+ yn sylweddol ym mhob un o Awdurdodau'r Gogledd ers 2013 e.e. cynnydd ar L6+ yn amrywio o +4.8% (Conwy) i +8.0% (Gwynedd). Mae'r bwlch rhwng y merched a'r bechgyn ar L5+ yn llai mewn mathemateg ac yn debyg iawn i'r darlun yn genedlaethol.
- **Gwyddoniaeth** - mae'r sefyllfa yn debyg iawn i Fathemateg gyda 93.7% o ddisgyblion yn cyflawni L5+ erbyn 2015 (Cymru - 91.8%), sef yr uchaf ymysg y rhanbarthau am 3 blynedd yn olynol. L6+ hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru yn ystod y cyfnod 2013-2015. Perfformiad yn gyson dda ar draws Awdurdodau'r Gogledd a chynnydd arwyddocaol ar L5+ a L6+ ym mhob awdurdod yn ystod y cyfnod 2013-2015. Bwlch rhwng y merched a'r bechgyn (4%) yn debyg iawn i weddill Cymru.

# CYFNOD ALLWEDDOL 4 [CANLYNIADAU DROS DRO]

**Barn Gryno CA4:**

**Yn gyffredinol, digonol yw'r perfformiad yn CA4. Ni welwyd cynnydd yn y prif ddangosydd (TL2+) 2014>2015. Nid yw hyn yn cyd-fynd a'r gwelliant cenedlaethol a'r cynnydd ym mhob un o'r rhanbarthau eraill ac mae hyn yn annerbyniol.**

- Ar gyfartaledd, mae ysgolion categori oren/coch wedi gwella +3.5% ers 2014 ac mae gwelliant sylweddol yng nghanlyniadau rhai ysgolion unigol. Mae hyn yn adlewyrchu effeithiolrwydd y rhaglenni ymyrraeth sydd ar waith yn yr ysgolion perthnasol. Serch hynny, ni welwyd y cynnydd disgwyliedig mewn canran bychan o'r ysgolion hynny.
- Siomedig ar y cyfan oedd perfformiad nifer o ysgolion categori gwyrdd a melyn. Roedd tanberfformio mewn nifer o ysgolion unigol, hyn yn annisgwyl o ystyried eu perfformiad a chynnydd hanesyddol.
- Gwelwyd amrywiaeth sylweddol ym mherfformiad nifer sylweddol o ysgolion dros gyfnod o dair blynedd. Mae hyn yn destun pryder, yn enwedig mewn ysgolion gymharol fawr.
- Mae gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y targedau/amcangyfrifon terfynol a'r gwir berfformiad mewn nifer o ysgolion. Mae hyn yn annerbyniol.
- Mae gwahaniaethau sylweddol mewn perfformiad yr Awdurdodau o fewn rhanbarth GwE, gan gynnwys amrywiaethau o safbwynt y cynnydd rhwng 2013>2015 a 2014>2015. Mae'r perfformiad uchaf TL2+ yng Ngwynedd (63.1% yn 2015) a'r cynnydd fwyaf 2014>2015 ym Môn (+2.8%). Serch hynny, mae perfformiad rhai ysgolion unigol yng Ngwynedd a Môn yn destun pryder. Yn Sir Ddinbych ni welwyd fawr ddim cynnydd yn y TL2+ rhwng 2014 a 2015 ac, er bod rhai ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod wedi gwneud cynnydd da, siomedig ydi'r canlyniadau ar gyfer y sir yn ei gyfanrwydd. Mae rhai ysgolion wedi tanberfformio yn 2015, yn enwedig o ystyried y gwelliant a welwyd yn 2014. Mae Sir Fflint wedi perfformio'n dda yn hanesyddol ond, yn 2015, gwelwyd gostyngiad arwyddocaol ym mherfformiad nifer o ysgolion y sir. Yng Nghonwy, mae'r TL2+ wedi gostwng -1.6% o ganlyniad i berfformiad siomedig mwyafrif ysgolion y sir. Er bod ychydig o gynnydd pellach yn y TL2+ (0.5%) yn Wrecsam yn 2015, mae perfformiad rhai ysgolion unigol yn parhau yn destun pryder mawr.
- Mae perfformiad disgyblion PYD yn 2015 yn siomedig ym mwyafrif Awdurdodau'r Gogledd a dim ond yng Nghonwy (5%) a Dinbych (4%) y gwelwyd unrhyw gynnydd yn y TL2+ rhwng 2014 a 2015. Mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â'r defnydd a wneir o'r Grant Amddifadedd.
- Mae'r pryder yn parhau ynglŷn â chanlyniadau Saesneg a Mathemateg TGAU mewn nifer o ysgolion ar draws rhanbarth GwE. Nid yw nifer sylweddol o ddisgyblion yn llwyddo i ennill graddau A*-C yn y ddau bwnc craidd yma.
- Mae cynnwys cymhwyster BTEC wedi arwain at ganrannau llwyddiant sy'n ymddangos yn dda iawn mewn Gwyddoniaeth. Serch hynny, nid yw'r canrannau llwyddiant mewn Gwyddoniaeth TGAU'r un mor bositif mewn nifer o ysgolion ar draws Awdurdodau'r Gogledd. O 2017 ymlaen ni fydd y cymhwyster BTEC yn cyfrannu i'r dangosyddion allweddol - mae hyn yn debygol o greu sialens enfawr i nifer o ysgolion os am gynnal y perfformiad ymddangosiadol presennol.

**CA4 – CRYNODEB**

| | 2012/13 | | | | | 2013/14 | | | | | 2014/15 | | | | | CYNNYDD TL2+ | | CYNNYDD TL2 | | CYNNYDD TL1 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % L1 | % L2 | % L2+ | % DPC | Nifer | % L1 | % L2 | % L2+ | % DPC | N | % L1 | % L2 | % L2+ | % DPC | 2013 >15 | 2014 >15 | 2013 >15 | 2014 >15 | 2013 >15 | 2014 >15 |
| CYMRU | 36617 | 93 | 78 | 52.7 | 49.2 | 35168 | 94 | 82 | 55.4 | 52.6 | X | 94 | 83 | 58 | 54 | 5.3% | 2.6% | 5.2% | 0.7% | 0.8% | 0.0% |
| GwE | 7747 | 95 | 81 | 56 | 52.9 | 7450 | 95 | 84 | 57.1 | 54.8 | X | 96 | 81 | 57.1 | 54.9 | 1.1% | 0.0% | -0.4% | -3.2% | 1.1% | 0.6% |
| Ynys Môn | 727 | 97 | 83 | 54.2 | 50.6 | 653 | 96 | 86 | 53.8 | 52.5 | X | 97 | 83 | 56.6 | 54 | 2.4% | 2.8% | -0.2% | -2.6% | -0.9% | 0.5% |
| Gwynedd | 1409 | 97 | 82 | 58 | 57.3 | 1329 | 97 | 88 | 61.1 | 60.5 | X | 98 | 89 | 63.1 | 62 | 5.1% | 2.0% | 7.5% | 1.3% | 0.9% | 0.8% |
| Conwy | 1267 | 95 | 85 | 56 | 52.6 | 1208 | 96 | 86 | 55.5 | 52.7 | X | 96 | 83 | 53.9 | 51 | -2.1% | -1.6% | -1.6% | -2.8% | 0.7% | 0.4% |
| Dinbych | 1254 | 94 | 86 | 53.4 | 49 | 1251 | 95 | 89 | 55.6 | 54 | X | 95 | 86 | 55.7 | 52 | 2.3% | 0.1% | 0.3% | -2.8% | 1.4% | -0.2% |
| Fflint | 1810 | 94 | 80 | 62.2 | 59 | 1736 | 94 | 83 | 61.9 | 58.3 | X | 94 | 81 | 60 | 58 | -2.2% | -1.9% | 1.4% | -1.7% | 0.0% | 0.2% |
| Wrecsam | 1280 | 91 | 73 | 48.4 | 44.8 | 1273 | 93 | 74 | 51 | 47.8 | X | 93 | 71 | 51.5 | 48 | 3.1% | 0.5% | -2.4% | -2.9% | 2.1% | -0.1% |
| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| ERW | 10102 | 95 | 81 | 55.6 | 52.4 | 9770 | 96 | 86 | 57.9 | 55.1 | X | x | x | 60.7 | x | 5.1% | 2.8% | | | | |
| CSC | 10646 | 93 | 76 | 49.4 | 46.8 | 10212 | 94 | 81 | 54.1 | 52.2 | X | x | x | 58.2 | X | 8.8% | 4.1% | | | | |
| EAS | 7119 | 92 | 73 | 49 | 45.8 | 6712 | 94 | 80 | 52.2 | 50 | X | x | x | 54.7 | X | 5.7% | 2.5% | | | | |

## CA4 – TL2+

| Rhanbarth | TL2+ 2014 | TL2+ 2015 | +/- |
|---|---|---|---|
| GwE | 57.1% | 57.1% | 0% |
| CSC | 54.1% | 58.2% | 4.1% |
| EAS | 52.2% | 54.7% | 2.5% |
| ERW | 58.0% | 60.7% | 2.7% |

| ALl | TL2+ 2014 | TL2+ 2015 | +/- |
|---|---|---|---|
| Môn | 53.8% | 56.6% | 2.8% |
| Gwynedd | 61.10% | 63.1% | 2.0% |
| Conwy | 55.5% | 53.9% | 1.6% |
| Dinbych | 55.6% | 55.7% | 0.1% |
| Fflint | 61.9% | 60.0% | 1.9% |
| Wrecsam | 51.0% | 51.5% | 0.5% |

**CA4 DISGYBLION PYD**

| ALl | PYD L2+ 2014 | PYD L2+ 2015 | +/- |
|---|---|---|---|
| Môn | 41.40% | 35.90% | -5.50% |
| Gwynedd | 32.00% | 31.80% | -0.20% |
| Conwy | 25.30% | 30.30% | 5.00% |
| Dinbych | 25.90% | 29.90% | 4.00% |
| Fflint | 37.30% | 35.20% | -2.10% |
| Wrecsam | 26.70% | 19.60% | -7.10% |
| GwE | 30.50% | 29.60% | -0.90% |
| Cymru | 27.20% | x | x |

**Trothwy Lefel 2+ (TL2+)**

- Gwelwyd cynnydd o 1.1% yn rhanbarth GwE yn ystod y cyfnod 2013>2015 (i 57.1%) ond dim cynnydd rhwng 2014 a 2015. Mae'r cynnydd yn y consortia eraill yn sylweddol uwch ac mae'r cyfartaledd ar draws Cymru yn +5.2% (2013>2015) a +2.6% (2014>2015). Mae'r ganran sy'n cyflawni'r dangosydd allweddol hwn yn rhanbarth GwE (57.1% yn 2015) yn gosod GwE yn drydedd ymysg y 4 rhanbarth a hefyd yn is na chyfartaledd Cymru (58%) am y tro cyntaf ers 3 blynedd. Digonol yn unig yw'r safonau o safbwynt TL2+.
- **Awdurdodau Rhanbarth GwE** - Mae'r cynnydd o +2.8% (2014>2015) ym Môn i 56.6% yn gadarn, gyda chynnydd i'w weld hefyd yng Ngwynedd (+2.0% i 63.1%) ac i raddau llai yn Wrecsam (+0.5% i 52.4%). Yn Ninbych yn 2015 mae'r TL2+ (55.7%) yn debyg iawn i'r hyn welwyd yn 2014. Mae'r gostyngiad yng Nghonwy (-1.6% i 53.9%) ac yn Fflint (-1.9% i 60.0%) yn siomedig iawn. Yn ystod y cyfnod treigl 2013>2015, mae'r cynnydd/gostyngiad yn amrywio o -2.2% (Fflint) i +5.1% (Gwynedd) ond nid yw'r cynnydd mewn unrhyw Awdurdod yn rhanbarth GwE yn uwch na chyfartaledd Cymru (+5.3%).
- Mae canran y merched sy'n cyrraedd y Trothwy Lefel 2+ yn sylweddol uwch na'r bechgyn ac, o fewn rhanbarth GwE yn 2015, mae'r bwlch yn amrywio o 2% yng Ngwynedd i 12% yng Nghonwy. Yn 2015, roedd y bwlch yng Nghymru gyfan yn 7%.
- Mae gostyngiad o 0.9% yn y ganran o ddisgyblion PYD sy'n cyflawni TL2+ (2014>2015) yn rhanbarth GwE. Mae'r ganran hwn is na chyfartaledd Cymru. Roedd y cynnydd fwyaf yng Nghonwy (+5.0% i 30.3%) a'r gostyngiad fwyaf yn Wrecsam (-7.1% i 19.6%). Dim ond yn awdurdodau Conwy a Dinbych y gwelwyd cynnydd ym mherfformiad dysgwyr PYD yn y TL2+ rhwng 2014>2015.
- Mae'r ystadegau ar gyfer y Dangosydd Pynciau Craidd yn dangos yr un tueddiadau a TL2 +. Mae'r canrannau ar gyfer y DPC 2-3% yn is na TL2+ ar draws y rhanbarth.

**Trothwy Lefel 2 (TL2)**

- Yn ystod y cyfnod treigl 2013>2015, dim ond yng Ngwynedd y gwelwyd cynnydd sylweddol yn y ganran o ddisgyblion sy'n cyflawni gofynion Trothwy Lefel 2 (+7.5% i 89.0%) o'i gymharu â'r cynnydd yng Nghymru (+5.2% i 83.0%). Ac eithrio Gwynedd a Dinbych (cynnydd +0.3% i 86.0%) mae'r ganran TL2 ym mhob awdurdod arall yn y Gogledd yn gyfartal neu'n is na chyfartaledd Cymru. Mae'r gostyngiad yn 2014>2015 ym Môn (-2.6%), Fflint (-1.7%), Conwy (-2.8%) a Wrecsam (-2.9%) yn siomedig.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn yn adlewyrchu'r bwlch cenedlaethol yn 2015 (7% o blaid y merched).

**Trothwy Lefel (TL1)**

- Erbyn 2015 mae'r ganran sy'n cyflawni Trothwy Lefel 1 yn uwch na chyfartaledd Cymru (94.0%) ym mhob un o Awdurdodau'r Gogledd ac eithrio Wrecsam (cynnydd o +2.1% yn 2013>2015 i 93.0%). Mae'r cynnydd hwn yn dda ac yn adlewyrchu natur gynhwysol ysgolion y rhanbarth yn ogystal â'r ffaith bod dros 99% o ddisgyblion y rhanbarth wedi eu cofrestru am o leiaf un cymhwyster yn 2015.

**Sgôr Pwyntiau wedi'i Gapio**

| SPC | 2013 | 2014 | 2015 | 2013-15 [+/-] | 2014-15 [+/-] |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 353.4 | 362.2 | 362.0 | 8.6 | -0.2 |
| **Môn** | 358.5 | 357.2 | 351.0 | -7.5 | -6.2 |
| **Conwy** | 339.9 | 346.0 | 339.0 | -0.9 | -7.0 |
| **Dinbych** | 345.3 | 351.8 | 344.0 | -1.3 | -7.8 |
| **Fflint** | 337.1 | 341.5 | 338.0 | 0.9 | -3.5 |
| **Wrecsam** | 323.5 | 329.3 | 325.0 | 1.5 | -4.3 |
| **GwE** | | | | 0.0 | 0.0 |
| **Cymru** | 333.1 | 340.8 | 342.0 | 8.9 | 1.2 |

- Ac eithrio Wrecsam, mae sgôr cyfartalog pob Awdurdod yn Rhanbarth GwE wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2013 a 2014. Bu gostyngiad ym mhob Awdurdod yn 2015 ac erbyn hyn dim ond Gwynedd, Môn a Dinbych sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r gostyngiad ym Môn, Conwy a Dinbych yn 2015 yn siomedig ac mae'r data yn adlewyrchu perfformiad digonol ar draws rhanbarth GwE yn 2015.
- Yn 2015, mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn yn amrywio o 13 pwynt (Môn) i 27 pwynt (Wrecsam). Mae'r bwlch ar draws Cymru yn 23 pwynt yn 2015.

**Pynciau Craidd - Cyfnod Allweddol 4**

**Cymraeg Iaith Gyntaf**

| | CYMRAEG A*-C | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | CYNNYDD 2013>2015 | CYNNYDD 2014>2015 |
| **Ynys Môn** | 66.4% | 71.6% | 72.0% | 5.6% | 0.4% |
| **Gwynedd** | 72.8% | 73.3% | 79.0% | 6.2% | 5.7% |
| **Conwy** | 71.2% | 79.0% | 72.0% | 0.8% | -7.0% |
| **Dinbych** | 69.7% | 73.0% | 72.0% | 2.3% | -1.0% |
| **Fflint** | 71.3% | 59.7% | 72.0% | 0.7% | 12.3% |
| **Wrecsam** | 80.0% | 69.0% | 77.0% | -3.0% | 8.0% |
| | | | | | |
| **GwE** | 71.2% | 72.7% | x | x | x |
| **Cymru** | 73.5% | 73.7% | 75.0% | 1.5% | 1.3% |
| **ERW** | 74.7% | 73.2% | x | X | X |
| **CSC** | 76.1% | 75.4% | x | X | X |
| **EAS** | 74.0% | 76.1% | x | X | X |

| % YN SEFYLL CYMRAEG IAITH GYNTAF | | | |
|---|---|---|---|
| | **2013** | **2014** | **2015** |
| **Ynys Môn** | 68% | 70% | x |
| **Gwynedd** | 80% | 84% | x |
| **Conwy** | 16% | 16% | x |
| **Dinbych** | 20% | 18% | x |
| **Fflint** | 6% | 4% | x |
| **Wrecsam** | 8% | 10% | x |
| | | | |
| **GwE** | 29% | 29% | x |
| **Cymru** | 15% | 16% | x |
| **ERW** | 18% | 19% | x |
| **CSC** | 10% | 11% | x |
| **EAS** | 5% | 6% | x |

- Mae'r ystadegau ar gyfer y Gymraeg yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr yn hytrach na'r holl ddisgyblion o'r oedran perthnasol. Mae amrywiaeth mawr yn y ganran sy'n sefyll TGAU mewn Cymraeg Iaith Gyntaf (yn hytrach nag ail-iaith) oddi fewn i ranbarth GwE yn ogystal ag ar draws Cymru gyfan. Mae'r ganran sy'n sefyll yr arholiad iaith Gyntaf yn rhanbarth GwE wedi aros yn weddol sefydlog yn ystod y cyfnod 2013 i 2015.

- Yn ystod y cyfnod 2013>2015 mae'r ganran o ddisgyblion sy'n llwyddo i ennill cymhwyster A*-C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf wedi cynyddu 6.2% yng Ngwynedd i 79% ac wedi cynyddu 5.6% ym Môn i 72%. Mae'r ganran llwyddiant yng Nghymru wedi cynyddu 1.5% dros yr un cyfnod i 75%. Mae nifer yr ymgeiswyr o siroedd eraill y Gogledd yn llawer llai ac, yn 2014, yn amrywio o 4% o'r disgyblion yn Fflint i 18% yn Ninbych. Mae cynnydd o 8% yn y nifer o ymgeiswyr sy'n ennill A*-C yn ardal Wrecsam rhwng 2014>2015, a chynnydd o 12.3% yn Fflint.
- Mae'r bwlch rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn yn 2015 yn amrywio o 12% yn Wrecsam a Chonwy i 25% yn Ninbych. Bwlch Cymru yn 2015 -17%.
- **Mae angen parhau i gynnal y safonau yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 a chynyddu nifer y disgyblion, yn enwedig y bechgyn, sy'n ennill cymhwyster Iaith Gyntaf.**

**Saesneg**

| | SAESNEG A*-C | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | CYNNYDD | |
| | | | | 2013>2015 | 2014>2015 |
| **Ynys Môn** | 61.5% | 65.2% | 63.0% | 1.5% | -2.2% |
| **Gwynedd** | 66.6% | 69.2% | 72.0% | 5.4% | 2.8% |
| **Conwy** | 64.1% | 65.5% | 66.0% | 1.9% | 0.5% |
| **Dinbych** | 64.4% | 66.6% | 66.0% | 1.6% | -0.6% |
| **Fflint** | 72.7% | 73.3% | 72.0% | -0.7% | -1.3% |
| **Wrecsam** | 58.4% | 61.8% | 64.0% | 5.6% | 2.2% |
| | | | | | |
| **GwE** | 65.4% | 67.5% | x | x | x |
| **Cymru** | 62.9% | 66.1% | 68.0% | 5.1% | 1.9% |
| **ERW** | 64.7% | 67.6% | x | X | X |
| **CSC** | 60.5% | 65.2% | x | X | X |
| **EAS** | 60.1% | 64.7% | x | X | X |

- Yn 2015, mae'r ganran A*-C mewn Saesneg yn uwch na chyfartaledd Cymru (68%) mewn dau awdurdod yn rhanbarth GwE, sef Gwynedd (72%) a Fflint (72%) ac yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn yr awdurdodau eraill.
- Yn ystod y cyfnod 2013>2015 mae'r cynnydd o +5.6% yn Wrecsam a + 5.4% yng Ngwynedd yn dda mewn cymhariaeth a'r cynnydd o +5.1% yng Nghymru dros yr un cyfnod. Mae'r cynnydd yn yr Awdurdodau eraill yn rhanbarth GwE yn llai na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r merched yn perfformio llawer gwell na'r bechgyn erbyn diwedd CA4 ac, yn rhanbarth GwE, mae'r bwlch yn amrywio o 14% ym Môn i 25% yng Nghonwy. Bwlch yng Nghymru yn 2015 - 17%.
- **Mae angen parhau gyda'r flaenoriaeth a roddir i safonau Saesneg yn rhanbarth GwE. Mae tystiolaeth o welliant mewn nifer o ysgolion yn Wrecsam a Gwynedd ond anghyson yw'r safonau yn rhanbarth GwE. Mae'r bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched yn parhau yn gonsyrn. Digonol yw'r safonau mewn Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 4.**

**Mathemateg**

| | MATHEMATEG A*-C | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | CYNNYDD | |
| | | | | 2013>2015 | 2014>2015 |
| **Ynys Môn** | 62.2% | 60.1% | 64.0% | 1.8% | 3.9% |
| **Gwynedd** | 62.2% | 65.0% | 67.0% | 4.8% | 2.0% |
| **Conwy** | 66.4% | 63.0% | 62.0% | -4.4% | -1.0% |
| **Dinbych** | 61.5% | 62.8% | 63.0% | 1.5% | 0.2% |
| **Fflint** | 68.5% | 68.4% | 69.0% | 0.5% | 0.6% |
| **Wrecsam** | 57.7% | 57.3% | 57.0% | -0.7% | -0.3% |
| | | | | | |
| **GwE** | 63.5% | 63.4% | x | x | x |
| **Cymru** | 60.3% | 61.7% | 64.0% | 3.7% | 2.3% |
| **ERW** | 63.5% | 64.4% | x | X | X |
| **CSC** | 56.3% | 60.2% | x | X | X |
| **EAS** | 56.6% | 57.7% | x | X | X |

- Yn 2015 mae'r ganran sy'n ennill cymhwyster A*-C mewn mathemateg yn uwch na chyfartaledd Cymru (64%) yn Fflint (69%), Gwynedd (67%), ac Ynys Môn (64.5%) ond yn is na Chymru yn Ninbych (63%), Conwy (62%) a Wrecsam (57%).
- Yn ystod y cyfnod treigl 2013>2015 gwelwyd cynnydd yn Fflint (+0.5%), Dinbych (+1.5%), Ynys Môn (+1.8%) a Gwynedd (+4.8%). Roedd gostyngiad yn Wrecsam (-0.7%) a Conwy (-4.4%). Mae'r ganran A*-C yng Nghymru yn 2015 yn 64% (cynnydd o 3.7% ers 2013).
- Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn mewn mathemateg ar draws rhanbarth GwE.
- **Dengys yr ystadegau uchod bod perfformiad rhanbarth GwE mewn mathemateg yn ddigonol yn unig a bod angen cynnig her, a darparu cefnogaeth ddwys i nifer o ysgolion yn y maes allweddol hwn.**

Gwyddoniaeth

| | GWYDDONIAETH LEFEL 2 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | CYNNYDD | |
| | | | | 2013>2015 | 2014>2015 |
| **Ynys Môn** | 79.2% | 88.2% | 91.0% | 11.8% | 2.8% |
| **Gwynedd** | 84.7% | 93.7% | 94.0% | 9.3% | 0.3% |
| **Conwy** | 81.4% | 85.1% | 84.0% | 2.6% | -1.1% |
| **Dinbych** | 77.3% | 88.1% | 81.0% | 3.7% | -7.1% |
| **Fflint** | 78.0% | 84.0% | 83.0% | 5.0% | -1.0% |
| **Wrecsam** | 66.9% | 77.8% | 76.0% | 9.1% | -1.8% |
| | | | | | |
| **GwE** | 77.9% | 85.9% | x | x | x |
| **Cymru** | 74.8% | 82.3% | 83.0% | 8.2% | 0.7% |
| **ERW** | 74.7% | 81.5% | X | X | X |
| **CSC** | 75.0% | 83.3% | X | X | X |
| **EAS** | 74.4% | 82.5% | X | X | X |

- Yn 2015 mae'r ganran sy'n ennill cymhwyster Lefel 2 mewn gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd Cymru (83%) ym mhob Awdurdod yn rhanbarth GwE ac eithrio Wrecsam (76%) a Dinbych (81%).
- Yn ystod y cyfnod treigl 2013>2015 gwelwyd cynnydd da ym mhob un o awdurdodau'r Gogledd, yn amrywio o +2.6% yng Nghonwy i +11.8% yn Ynys Môn. Mae'r cynnydd yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn +8.2%.
- Mae'r merched yn perfformio ychydig yn well na'r bechgyn (1-3%) yn Awdurdodau'r Gogledd. 'Roedd y bwlch cenedlaethol yn 3% yn 2015.
- **Mae'r cynnydd sylweddol yn y ganran sydd wedi ennill cymhwyster Lefel 2 yn lleol ac yn genedlaethol, ac yn ystadegol, gellir barnu bod y safonau yn y pwnc yn dda. Serch hynny, dylid cydnabod bod nifer fawr o ddisgyblion wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn cyrsiau galwedigaethol yn hytrach na chyrsiau TGAU traddodiadol, ac mae pryder ynglŷn â pherfformiad mewn TGAU Gwyddoniaeth mewn nifer o ysgolion o fewn pob ALl.**

## MATERION AR GYFER GWEITHREDU

Herio yn rymus pob ysgol sy'n perfformio yn gyson islaw canolrif meincnodau PYD mewn dangosyddion perfformiad allweddol. Cytuno ar gamau gweithredu penodol:

- ar lefel ranbarthol i dargedu agweddau cyffredin [gyda ffocws penodol ar Fathemateg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 4 - gweler isod hefyd].
- o fewn pob ALl i dargedu ysgolion ac adrannau sy'n sefyll yn eu hunfan ac yn tanberfformio [gyda ffocws penodol ar Fathemateg a Saesneg yng nghyfnod allweddol 4 - gweler isod hefyd].

Sicrhau bod gan bob ysgol uwchradd fynediad i gefnogaeth pwnc arbenigol mewn Mathemateg, Saesneg a Gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 4. Bydd hyn yn golygu secondiadau pwnc/comisiynu er mwyn:

- llunio a gweithredu strategaeth ranbarthol i wella safonau cyflawniad yn y pynciau craidd
- gwella sgiliau arweinyddiaeth mewn adrannau sy'n sefyll yn eu hunfan ac yn tanberfformio
- gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu
- gwella a miniogi dealltwriaeth adrannau o asesu ac asesu ar gyfer dysgu
- gwella strategaethau tracio ac ymyriad cynnar a dulliau effeithiol o baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau
- cydlynu rhwydwaith o Benaethiaid Adrannau er mwyn mynd i'r afael â materion cyffredin a rhannu arfer dda
- sicrhau bod pob pwnc craidd yn gweithredu'r manylebau TGAU newydd yn effeithiol

Gwella systemau a gweithdrefnau tracio ac ymyriad cynnar mewn ysgolion uwchradd i fynd i'r afael â thanberfformiad yng nghyfnod allweddol 4 trwy glustnodi rôl portffolio ar gyfer Ymgynghorydd Her arweiniol i:

- archwilio pa mor rymus yw gweithdrefnau gosod targedau, asesu a thracio, yn enwedig yn yr ysgolion hynny ble mae bwlch sylweddol rhwng targedau, amcangyfrifon perfformiad terfynol a pherfformiad gwirioneddol.
- herio a chefnogi ysgolion er sicrhau bod gweithdrefnau ymyriad cynnar yn cael eu defnyddio yn effeithiol.
- sicrhau bod pob Pennaeth, yn enwedig Penaethiaid ysgolion sy'n sefyll yn eu hunfan ac yn tanberfformio, yn herio perfformiad ac asesiadau yn rymus.

Sicrhau bod pob ysgol yn defnyddio eu Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn briodol er mwyn gwella perfformiad disgyblion PYD ac yn benodol ar y lefelau uchaf trwy:

- herio a monitro ysgolion ar eu defnydd o'r GAD a'i effaith ar berfformiad disgyblion PYD.
- adnabod a rhannu arfer dda er mwyn gwella perfformiad disgyblion PYD

Gwella ansawdd yr her a'r gefnogaeth a gynigir i ysgolion gan Ymgynghorwyr Her ac, o'r herwydd, sicrhau gwell cysondeb o ran ansawdd ac effaith ar draws yr hybiau trwy:

- sicrhau Rheoli Perfformiad mewnol grymus a gweithdrefnau sicrhau ansawdd ac atebolrwydd, a'u bod yn cael eu gweithredu yn gyson o fewn ac ar draws hybiau.
- asesu lefel bresennol y sefydliad o ran sgiliau a gwybodaeth a phenderfynu pa hyfforddiant/datblygiad ychwanegol sydd angen i feithrin a chynnal y sgiliau hyn.
- cynllunio a datblygu rhaglen hyfforddiant a datblygu strategol i Ymgynghorwyr Her ar gyfer 2015>2018.
- cyflwyno rhaglen ddatblygiadol i gyfoethogi dysgu a datblygiad proffesiynol grŵp targed o Ymgynghorwyr Her o fewn GwE sy'n herio a chefnogi ysgolion uwchradd.
- hyrwyddo rhannu arfer orau gyfredol yn fwy effeithiol ar draws hybiau
- defnyddio Penaethiaid uwchradd profiadol, sydd â hanes llwyddiannus mewn ysgolion uwchradd sy'n tanberfformio, i dargedu gwelliant yng nghyfnod allweddol 4.

Adolygu'r strategaeth recriwtio er sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn gallu denu ymarferwyr uwchradd effeithiol o ansawdd uchel i rolau allweddol.

Datblygu ymhellach y system rheoli data ysgolion ranbarthol i ganiatáu defnydd cynnar ac effeithiol o ddata perfformiad a thargedau o fewn ysgolion/AauLl a'r consortia rhanbarthol i:

- herio ysgolion yn rymus ar eu targedau a'u perfformiad
- casglu amcangyfrifon dangosyddion perfformiad allweddol yn dymhorol yn erbyn targedau
- herio a chefnogi ysgolion o ran dadansoddi data ac arfarnu

Sicrhau bod y model gweithredu diwygiedig rhwng GwE ac ysgolion rhanbarthol yn creu capasiti i:

- weithredu ar lefel o her a chefnogaeth sy'n briodol fanwl ar gyfer ysgolion categori melyngoch/coch er mwyn atal unrhyw ysgol rhag cael ei gosod mewn categori statudol Estyn o 2016 ymlaen.
- sicrhau her a chefnogaeth briodol i bob ysgol o fewn system hunan-wella fwy grymus.

Cryfhau gweithdrefnau i wella cysondeb a dibynadwyedd asesiad athro yn y CS, CA2 a CA3 trwy:

- ddarparu hyfforddiant a pharhau i hyrwyddo Proffiliau Dysgwr enghreifftiol
- parhau i sicrhau ansawdd cymedroli clwstwr, adolygu deilliannau prosesau dilysu allanol a briffio ysgolion i fynd i'r afael â:
  - chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Atgyfnerthu Hyder yn Asesiadau Athrawon.
  - argymhellion yr adroddiad rhanbarthol ar ddeilliannau'r broses dilysu allanol a'r enghreifftiau o arfer dda sydd wedi'u hadnabod.
- sefydlu grŵp o ymarferwyr arweiniol CS i lunio proffiliau CS enghreifftiol ar gyfer Deilliant 5 a Deilliant 6, cynhyrchu arweiniad ar gymedroli a rhannu gwybodaeth ag ysgolion.

Archwilio'r gydberthynas rhwng asesiad athro a chanlyniadau profion darllen/rhifedd er mwyn gallu targedu cefnogaeth llythrennedd a rhifedd yn well.

Penodi Uwch Ymgynghorydd Her gyda chyfrifoldeb penodol dros arwain datblygiadau a chodi safonau yn y Cyfnod Sylfaen.